DARGANFOD SIR DDINBYCH

DILYS | CYNALIADWY | HEB EI DDARGANFOD 2022



Gweithiwch ar eich sgiliau coed

Dathlwch lwybr rhyfeddol Llwybr Arfordir Cymru

Antur yn yr awyr agored: gadewch olion traed yn unig

Rhyfeddwch at yr awyr gwirioneddol dywyll a hudolus

O'r pridd i'r plât: blaswch y gwahaniaeth

Hoffech chi ddysgu mwy am yr ardal? Cwblhewch hyfforddiant ar-lein am ddim i fod yn Llysgennad Twristiaeth Sir Ddinbych.

www.llysgennadsirddinbych.cymru

gogledddcymru_northeastwales

NthEastWales

@NthEastWales

YouTube North East Wales

E-bost
twristiaeth@sirddinbych.gov.uk

Canolfannau Croeso
Pentref y Plant, Rhodfa'r Gorllewin,
Y Rhyl LL18 1HZ. 01745 355068.
Y Capel, Heol y Castell, Llangollen
LL20 8NU. 01978 860828.

Cyhoeddwyd yn 2022 gan Dîm Twristiaeth,
Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych.

Ffotograffiaeth: The Forge Corwen, The Whittlings,
Oneplanet Adventure, Adventure Tours UK,
Ioan Said Photography, Eastwood Media,
Craig Colville Photography.
Golygu a dylunio: White Fox.
Argraffu: Lexon Group.

Llun ar y clawr: Traeth Prestatyn
Y dudalen hon: The Forge, Corwen

www.gogleddddwyraincymru.cymru

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Gwych gyda'n gilydd | NORTH EAST WALES Altogether brilliant

CYNNWYS

Mae teithwyr yn chwilio am brofiadau dilys y dyddiau hyn. Maen nhw am amsugno'r diwylliant lleol, blasu'r bwyd a dianc oddi wrth y torfeydd. Mae Sir Ddinbych yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn arwain y ffordd.

Creadigrwydd yn yr awyr agored 4

Pethau i'w gwneud yn y gwanwyn 5

Antur yn yr awyr agored sy'n gyfeillgar i'r ddaear 6

Atyniadau dan do o'r radd flaenaf 8

Pethau i'w gwneud yn yr haf 9

Dathlu 10 mlynedd o Lwybr Arfordir Cymru 10

Tirweddau trawiadol, bwyd blasus 12

Pethau i'w gwneud yn yr hydref 13

Syllu ar y sêr: y sioe orau yn y byd 14

Eglwys gadeiriol a chestyll Dyffryn Clwyd 16

Pethau i'w gwneud yn y gaeaf 17

Map o Sir Ddinbych 18

Caiff cylchgrawn Darganfod Sir Ddinbych ei argraffu ar Bapur Carbon Cytbwys. Trwy Ymddiriedolaeth Tir y Byd mae'r cyhoeddwyr wedi cydbwyso swm sy'n gyfwerth â 233kg o garbon deuocsid. Mae hyn yn galluogi'r ymddiriedolaeth i amddiffyn 44m² goedwigoedd trofannol sydd dan fygythiad sylweddol.

WORLD LAND TRUST™

www.carbonbalancedpaper.com
CBP010502

Roedd yr holl wybodaeth yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi – ond gall bethau newid. I osgoi siom, gwiriwch oriau agor a manylion eraill y cyrchfannau i gyd cyn teithio yno.

The Forge

The Wild Bushcraft Company

Coedwig Wernog

The Whittlings

DYSGU'CH CREFFT

Ambell waith mae angen i ni arafu, ail-gysylltu â natur a defnyddio ein creadigrwydd. Mae mannau agored ac eang yn Sir Ddinbych sy'n berffaith ar gyfer cynnal gweithdai.

O leoliad heddychlon **Coedwig Wernog** (www.wernogwood.co.uk) ar y bryniau uwchben Rhuthun, mae mintai o bobl grefftus yn darparu cyrsiau creu giatiau derw hollt, gemwaith arian, serameg wedi'i greu mewn pwll tân, gofal croen botanegol, gwaith lledr a chreu printiau leino.

Un ohonynt yw David White o **The Whittlings** (www.thewhittlings.co.uk), sef gwneuthurwr llestri gwladaidd unigryw sy'n defnyddio technegau trin coed gwyrdd traddodiadol. Gall eich dysgu sut i greu llwy bren o goedyn, gyda dim ond bwyall a dau fath o gyllell.

"Mae pethau wedi bod yn cael eu cynhyrchu fel hyn ers cannoedd o flynyddoedd ac rydych yn teimlo gwir gysylltiad â'r gorffennol," meddai. "Mae'n gyfle i ddianc am seibiant syml ac ymlacio yn yr awyr agored godidog."

Dysgodd David ei grefft yn y **Woodland Skills Centre** (www.woodlandskillscentre.uk) ym Modfari yng nghanol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae'n debyg mai'r fenter gymdeithasol ddi-elw hon sy'n rhedeg y rhaglen fwyaf o grefftau traddodiadol yng Nghymru. Eu cyrsiau diweddaraf yw byw yn y gwyllt trwy'r tymhorau, gwehyddu gwyllt, tyfu a defnyddio perlysiau meddyginiaethol a sgiliau gof.

Pan sefydlodd y pâr priod Jamie a Sheena Corry eu cwmni **The Forge** (www.theforgecorwen.co.uk) yng Nghorwen, yn eu geiriau nhw, "dim ond tair pabell mewn cae" oedd o.

Wedi'u sbarduno gan eu hawch am ddad-ddofi tir, mae'r busnes wedi tyfu i fod yn eco-wersyll gwledig moethus sy'n cynnig popeth o wyliau ioga a lles i redeg llwybrau a nofio gwyllt. Ar gyfer 2022, maent yn cynnig profiad trochi newydd dros bum diwrnod o'r enw Rhyddhau Eich Hun Rhag Llosgi Allan.

Ar y cyd â'u busnes arall, Wild Bushcraft Company, gallwch hyd yn oed ddysgu crefft hynafol pladuro ar fryngaer o Oes yr Haearn a dôl blodau gwyllt.

Mae **Original Outdoors** (www.originaloutdoors.co.uk) yn rhedeg cyrsiau byw yn y gwyllt, hyfforddiant llywio a goroesi o'u sylfaen ger Rhuthun. Eu cwrs mwyaf poblogaidd o bell ffordd yw eu cwrs undydd fforio a bwyd gwyllt – sef chwilio am blanhigion a ffwng bwytadwy yng nghaeau a choetiroedd gogledd Cymru ym mhob tymor.

Pethau i'w gwneud yn y gwanwyn

Gwisgwch Gennin Pedr ar eich côt a helpwch ein trefi a'n pentrefi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth.

Ewch am dro i'n cefn gwlad brydferth. Bydd Gwyliau Cerdded Llangollen, Prestatyn a Chorwen yn arddangos y llwybrau gorau.

Ewch i'n siopau cigydd, deli a'n siopau fferm i brynu cig oen brau y gwanwyn – gan gynnwys diadell organig fferm Ystâd Rhug.

Mae ein hadar yn mynd yn wyllt. Gwrandewch ar gôr yr adar ar doriad gwawr yn Llyn Brenig neu ewch i weld y grugiar ddu anhygoel yn ei safle paru yng Nghoed Llandegla.

Peidiwch â methu un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop ar gyfer pobl ifanc. Daw perfformwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych ym mis Mai 2022. Mynediad am ddim i bawb eleni.

Gwyliwch yr haul yn machlud. Mae golygfeydd syfrdanol i'w gweld tua'r gorllewin o Fryniau Clwyd ac allan tuag at fôr y Rhyl a Phrestatyn.

Mae dyddiau mwyn y gwanwyn yn berffaith i fynd am bicnic. Mae Maes Llantysilio ger Rhaeadr y Bedol, a ddyluniwyd gan Thomas Telford, yn lleoliad perffaith.

TEIMLO'N ANTURUS?

Esbonia Claire Copeman o Adventure Tours UK nad oes angen aberthu'r ddaear i fwynhau profiadau sy'n newid eich bywyd.

Mae Sir Ddinbych yn berffaith ar gyfer anturiaethau yn yr awyr agored. Mae ei harfordir digyffwrdd, ei bryniau anwastad a'i dyffrynoedd afonol rhyfeddol yn berffaith ar gyfer caiacio, beicio mynydd, byw yn y gwyllt, rafftio ar afonydd, fforio, barcudfyrddio a nifer o weithgareddau anhygoel eraill.

Fel y mwyafrif o anturiaethwyr yr awyr agored, mae Adventure Tours UK eisiau amddiffyn y mannau gwyllt yr ydym yn dianc iddyn nhw. Felly rydym yn cynnig profiadau i deuluoedd a grwpiau sydd nid yn unig wedi'u teilwra'n arbennig ond sydd hefyd yn rhai ysbrydoledig, go iawn. Rydym yn anelu at wneud yr anturiaethau hyn yn rhai gwirioneddol gynaliadwy.

Dyna pam yr ydym yn un o'r gweithredwyr cyntaf yn y byd i labelu ôl troed carbon ein teithiau ar gyfer grwpiau. Am bob unigolyn sy'n teithio, rydym yn plannu coeden mewn coedwig llydanddail frodorol newydd sydd wedi'i chreu ar y cyd ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Ond dim un elfen yw gwrthbwyso carbon. Mae llawer o ffyrdd eraill o fwynhau antur heb gyfaddawdu'r blaned:

Byw fel y trigolion lleol

Mae dysgu am hanes a diwylliant ardal yn rhan fawr o'ch profiad teithio. Mae bryngaerau o Oes yr Haearn yn wasgaredig ar hyd bryniau Sir Ddinbych a gall fod yn anodd dod o hyd i ystyr y lympiau a'r cnyciau a'r adfeilion. Ond gydag ychydig o wybodaeth leol am y dirwedd o'ch amgylch, cewch eich deffro.

Cadwch draw o'r mannau poblog

Yn aml cewch brofiad llawer gwell mewn mannau lle nad oes torfeydd o bobl. Yn hytrach na sefyll mewn rhes i gyrraedd copa'r Wyddfa, gallwch fwynhau golygfeydd prydferth heb weld yr un enaid byw yma yn Sir Ddinbych. Aethom unwaith â grŵp o redwyr ar hyd Llwybr Clawdd Offa, heibio i lethrau sgri Eglwyseg ac i lawr i Langollen. Dywedodd y rhedwyr, a oedd wedi rhedeg ym mhob cwr o'r byd, mai hwnnw oedd y llwybr mwyaf anhygoel a phrydferth yr oedden nhw erioed wedi'i weld.

Teithiwch yn ddoeth

Peidiwch â mesur eich gwyliau yn ôl pa mor bell yr ydych yn teithio. Mewn cyn lleied ag awr neu ddwy gallwch weld pethau na welsoch mohonynt o'r blaen. Dewiswch leoliad ac archwiliwch yr ardal yn fanwl yn hytrach na neidio o un lle i'r llall. Arafwch a threuliwch ychydig ddyddiau yn archwilio o ddifrif.

Bwytewch yn dda

Mae Sir Ddinbych yn adnabyddus am ei bwyd a'i diod. Yn ein tafarndai, bwytai, siopau deli a siopau cymunedol, mae'n hawdd dod o hyd i fwydydd ffres a thymhorol a gynhyrchir yn lleol gydag ôl troed carbon isel. (Fel rhan o'n Gwyliau Lles Gwyllt rydym yn gweini Mêl y Mynydd Du gydag iogwrt Llaeth y Llan i frecwast).

Defnyddiwch wybodaeth fewnol

Chwiliwch am ddarparwyr antur sy'n defnyddio tywyswyr lleol. Trwy hynny cewch wybod yr holl gyfrinachau: y llwybrau gorau ar gyfer beicio, y llecynnau mwyaf trawiadol i dynnu lluniau, y cwrw gorau yn y dref… Cewch weld pethau na fyddech yn debygol o'u gweld petaech yn teithio ar eich pen eich hun.

Dysgwch yr iaith

Rhowch gynnig arni! Mae cadw'r iaith Gymraeg yn fyw yn hollbwysig a gallwch chwarae'ch rhan trwy ddweud "bore da" a "diolch" ac ambell i frawddeg syml arall. Mae dysgu sut i ynganu enwau lleoedd Cymraeg yn ffordd hwyliog o ymgysylltu â'r diwylliant lleol.

Gadewch olion traed yn unig

Dylai unrhyw un sy'n archwilio ein tirweddau prydferth barchu'r Cod Cefn Gwlad. Mae hyn yn cynnwys cadw at y llwybrau cerdded a'r llwybrau ceffylau sydd wedi'u nodi, cau giatiau, mynd â'ch sbwriel adref gyda chi a gadael planhigion ac anifeiliaid gwyllt yn eu cynefinoedd.

Cymerwch ran

Chwiliwch am ddigwyddiadau lleol fel gwyliau bwyd, sioeau amaethyddol neu eisteddfodau, ac ewch draw am dro. Mae'n ffordd wych o gwrdd â phobl a chanfod mwy am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn yr ardal.

www.adventuretoursuk.com

Oneplanet Adventure, Llandegla

Nid ar chwarae bach y mae UNESCO yn anrhydeddu statws. Mae'r sefydliad o'r farn bod Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte o "werth cyffredinol eithriadol" i'r holl ddynolryw – yn union fel y Taj Mahal neu'r "Great Barrier Reef". Felly mae wedi eu henwi yn Safle Treftadaeth y Byd.

Mae **Glanfa Llangollen** (www.horsedrawnboats.co.uk) yn fan cychwyn delfrydol i archwilio'r gamlas ryfeddol hon sy'n 11 milltir o hyd ac sydd â thwnneli, hafnau, traphontydd dŵr ac argloddiau aruthrol ar ei hyd.

Gallwch ddal cychod yn y ddau gyfeiriad. Bydd ceffylau yn eich tynnu tuag at Raeadr y Bedol, ond bydd angen cwch modur a stumog go gryf arnoch i groesi Traphont Ddŵr fawreddog Pontcysyllte.

Rheilffordd Llangollen (www.llangollen-railway.co.uk) yw'r ail gampwaith o'r Chwyldro Diwydiannol a welir yn yr ardal hon. Mae'r rheilffordd dreftadaeth safonol hon yn rhedeg ar hyd glannau Afon Dyfrdwy ar ei thaith 10 milltir i Gorwen, sef cartref hynafiadol y Cymro arwrol, Owain Glyndŵr.

Mae'r dirwedd aruthrol hon wedi bod yn enwog ers iddi gael ei chanfod gan enwogion o'r oes Sioraidd. Dwy o'r rhain oedd Merched chwedlonol Llangollen, sef dwy bendefiges Wyddelig a drodd eu bwthyn cynil yn ffantasi Gothig.

GWEITHGAREDDAU DAN DO

Ewch i weld eu cartref afradlon a'u gardd ym **Mhlas Newydd** (www.plasnewyddllangollen.co.uk), ac yna ewch i gael te fel y gwnaeth William Wordsworth, Syr Walter Scott a Dug Wellington yn yr oes o'r blaen.

Mae'r holl brofiadau hyn dan do – perffaith ar gyfer diwrnodau gwlyb. Gerllaw yn Rhuthun mae tri o atyniadau da do gan gynnwys **Carchar Rhuthun** (www.ruthingaol.co.uk), sy'n rhoi cipolwg unigryw ar fywyd mewn carchar Fictoraidd. Cynhelir teithiau tywysedig yn yr awyr agored nes i ddrysau'r celloedd agor eto ar ôl cael eu difrodi mewn llifogydd yn ddiweddar – ac mae rhaglen o farchnadoedd artisan yn cael eu cynnal yn fisol trwy gydol y flwyddyn.

Adeiladwyd **Nantclwyd y Dre** (www.nantclwydydre.co.uk) yn 1435 ac mae'n Adeilad Rhestredig Gradd I, gyda Gardd yr Arglwydd sydd wedi'i hadfer. Dyma'r tŷ trefol ffrâm bren hynaf yng Nghymru. Mae tywyswyr sain yn dod â'r cymeriadau a'r straeon yn fyw dros bum canrif o hanes.

Canolfan Grefft Rhuthun (www.canolfangrefftrhuthun.org.uk) yw'r ganolfan celfyddydau cymhwysol fwyaf blaenllaw yng Nghymru. Mae yno dair oriel arddangos, stiwdios gwneuthurwyr, oriel fanwerthu a chaffi yn ogystal â rhaglen brysur o sgyrsiau, digwyddiadau a gweithdai.

Nantclwyd y Dre

Canolfan Grefft Rhuthun

Rheilffordd Llangollen

Dyfrbont Pontcysyllte

Pethau i'w gwneud yn yr haf

Mae trip i'r traeth yn hanfodol yn yr haf. Mae gan ein canolfannau glan y môr enwog yn y Rhyl a Phrestatyn draethau traddodiadol ac atyniadau hwyliog gan gynnwys parc dŵr SC2.

Gwyliwch yr unig nythfa o fôr-wenoliaid bach sy'n nythu yng Nghymru o blatfform gwylio arbennig ar Dwyni Tywod Gronant.

Ymunwch â'r parti. Mae ein digwyddiadau mawr yn cynnwys Sioe Dinbych a Fflint, Sioe Awyr y Rhyl a gŵyl ddiwylliannol Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

Ewch ar drên stêm traddodiadol o amgylch Llyn Morol y Rhyl ar reilffordd fechan hynaf Prydain.

Dringwch fryngaer. Mae gweddillion cadwyn o gaerau o Oes yr Haearn yn ymestyn ar hyd crib Bryniau Clwyd.

Llogwch feic o harbwr y Rhyl ac ewch ar hyd y prom tuag at Brestatyn ar hyd Llwybr Beicio Cenedlaethol 5.

Ewch ar antur yn yr awyr agored. Rhowch gynnig ar farcudfyrddio ar yr arfordir, padlfyrddio ar hyd Camlas Llangollen neu feicio mynydd yn Oneplanet Adventure.

O UN ARFORDIR I'R LLALL

I ganfod mwy am orffennol y Rhyl a'i obeithion ar gyfer y dyfodol, larlwythwch yr ap izi.TRAVEL am ddim a chwiliwch am bodlediad y Rhyl.

Twyni Tywod Gronant

Pont y Ddraig

Canolfan Nova

SC2

Skyflyer, Y Rhyl

Mynd am dro ar hyd promenâd glan môr enwog y Rhyl a Phrestatyn yw'r ffordd berffaith o ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn 2022.

Gerddwyr brwd, paratowch i ddathlu! Mae Llwybr Arfordir Cymru – sef y llwybr cyntaf erioed i fynd o amgylch holl arfordir un wlad – yn 10 oed eleni.

Mae'r llwybr 870 milltir yn cynnig cannoedd o brofiadau cerdded unigryw eisoes, ond ar ôl degawd o antur, mae'n argoeli mai 2022 fydd y flwyddyn fwyaf cofiadwy erioed i'r llwybr. Bydd calendr llawn digwyddiadau yn galluogi cerddwyr i ymuno â'r dathliadau ac ail-ddarganfod pleserau'r llwybr.

Un ohonynt fydd taith gerdded dywysedig arbennig yn ystod Gŵyl Gerdded Prestatyn a Bryniau Clwyd ym mis Mai. Mae gan Sir Ddinbych ran ei hun o'r llwybr rhyfeddol – sef saith milltir o draeth euraidd a golygfeydd o'r môr rhwng trefi glan y môr y Rhyl a Phrestatyn.

A'r peth gorau am y rhan hon o'r llwybr yw ei bod yn mynd ar hyd un promenâd hir a gwastad ar lan traethau, nes i'r llwybr gyrraedd Twyni Tywod Gronant sy'n gyfoeth o fywyd gwyllt. Fe welwch draeth Canolog Prestatyn sydd â Baner Las a thraeth Canolog y Rhyl sydd wedi ennill Gwobr Glan y Môr (mae croeso i gŵn rhwng misoedd Hydref ac Ebrill).

"Nid dynion barfog yn cario bagiau cefn yw'r unig fath o gerddwyr," meddai trefnydd yr ŵyl Malcolm Wilkinson. "Gall pobl sydd mewn cadeiriau olwyn neu sy'n gwthio pramiau fynd allan i fwynhau gwychder y rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru.

"Mae pobl yn dod o bob cwr o'r byd i weld machlud haul tuag at Ynys Seiriol, y bryniau yn y cefndir, yr atyniadau glan môr gyda phethau gwych i'r plant eu gwneud, a'r traethau diogel. Mae'r rhan fwyaf o'r daith gerdded hon yn addas i bobl o bob gallu ac mae'n symbylu pob un o'r synhwyrau."

Dros y degawd diwethaf mae Llwybr Arfordir Cymru wedi dod yn her "rhestr bwced" i lawer o bobl. Mae Prestatyn, y dref gyntaf yng Nghymru i ennill statws Croeso i Gerddwyr, yn disgwyl mwy na'r arfer o selogion yr awyr agored ar achlysur pen-blwydd y llwybr yn 10 oed.

Efallai y bydd ambell i anturiaethwr yn penderfynu nad yw'r llwybr cyfan o 870 milltir yn ddigon uchelgeisiol. Oherwydd ym Mhrestatyn mae Llwybr yr Arfordir yn uno â Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, sy'n mynd yr holl ffordd i Aber Afon Hafren ym mhen arall Cymru.

Gyda'i gilydd mae'r ddau lwybr yn creu llwybr cylch 1,047 o filltiroedd o amgylch y wlad i gyd – ond rhaid dweud bod tro bach ar hyd y prom gyda chacen i orffen yng Nghaffi Beach Hut Canolfan Nova yr un mor bleserus.

www.prestatynwalkingfestival.co.uk

Tirnodau

Dylai'r daith gerdded o harbwr y Rhyl i Dwyni Tywod Gronant gymryd ryw dair awr – neu ychydig yn hirach os ydych am archwilio rhai o'r atyniadau ar hyd y ffordd. Dyma bump o dirnodau blaenllaw.

Pont y Ddraig
Mae Pont y Ddraig yn bont eiconig sy'n agor a chau fel blodyn metel anferth er mwyn gadael i gychod hwylio heibio harbwr hanesyddol y Rhyl. Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yn mynd o dan y mast 50 metr o uchder (gallwch logi beic yng nghanolbwynt a chaffi'r harbwr y drws nesaf).

SC2
Yn ganolbwynt diamheuol i lan y môr y Rhyl, mae'r parc dŵr hwn sy'n addas i bob oedran a gallu. Y llithren gyflymaf yn y parc yw'r reid cafn Anaconda dychrynllyd. Yno hefyd mae Ninja TAG Rhyl, sef cwrs rhwystrau dan do ar sawl lefel i brofi'ch sgiliau, eich ffitrwydd a'ch dewrder. www.sc2rhyl.co.uk

Skyflyer, Y Rhyl
Fydd haf 2022 yn gweld lansiad profiad syfrdanol gan dîm Zip World, un o'r rhai cyntaf yn Ewrop. Mae gondola a ataliwyd o dan falŵn heliwm enfawr yn mynd â theithwyr ar daith oes, gan godi 120 metr i'r awyr i ddarparu golygfeydd ysblenydd 360 gradd.

Canolfan Nova
Un o atyniadau dan do mwyaf yr ardal gyda man chwarae meddal, pwll nofio, pwll sblasio a champfa o'r radd flaenaf. Fel Ystafell Fwyta'r Goedwig Law yn SC2, mae Caffi Beach Hut Canolfan Nova yn arbenigo mewn cynnyrch lleol gan gynnwys bara Henllan a chacennau Siwgr a Sbeis. www.novaprestatyn.co.uk

Twyni Tywod Gronant
Yma mae llwybr pren yn arwain trwy system twyni prin ac mae'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'n gartref i lyffant y twyni, madfall y tywod a'r unig nythfa o fôr-wenoliaid bach sy'n magu yng Nghymru. Gallwch wrando ar alaw hudolus yr ehedydd.

Wrth gerdded heibio i fferm organig Anna a Dave Taylor ar odre Bryniau Clwyd, fe welwch fuches o wartheg gyda chotiau brown a chlustiau blewog. Enw'r brîd yw "Brown Swiss" ac mae'r gwartheg yn cynhyrchu llaeth sy'n cynnwys mwy o fraster menyn na llawer o wartheg eraill.

Fel mae'n digwydd, mae'n llaeth delfrydol ar gyfer gwneud hufen iâ blasus. O dan yr enw brand Chilly Cow, mae Anna yn cynnig blasau hyfryd o fanila neu fefus i espresso frappé, cyffug taffi gludiog a meringue lemon.

Mae ar gael i'w brynu wrth giât y fferm ac mewn nifer o safleoedd manwerthu gan gynnwys theatrau lleol, sydd bob amser ag amser i stori dda. Stori sy'n esbonio twf Sir Ddinbych fel cyrchfan bwyd.

Mae tarddiad bwyd yn hollbwysig. Nid yn unig y mae'r tirweddau hyn yn ddeniadol i edrych arnyn nhw – maen nhw hefyd yn cynhyrchu bwyd a diod bendigedig. Mae pob cegaid o hufen iâ Chilly Cow yn rhoi blas go iawn i chi o gefn gwlad.

"Mae pobl yn prynu ein hufen iâ oherwydd eu bod yn gwybod yn union o ble mae o wedi dod a'i fod yn cael ei wneud yn ffres bob dydd iddyn nhw," meddai Anna.

Mae hi'n rhan o grŵp Bwyd a Diod Bryniau Clwyd, sy'n cynnwys tua 30 o bobwyr, siopau fferm, distyllwyr jin, gwneuthurwyr caws, gwenynwyr, gerddi cegin, bwytai a lletyau gwely a brecwast, i gyd yn ceisio codi proffil y sîn fwyd leol. Mae grŵp tebyg yn bodoli yn Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy.

Gwartheg Chilly Cow

CYRCHFAN BWYD

Maent yn rhannu cyngor, ymuno â'i gilydd mewn ffeiriau bwyd ac yn cynnal sesiynau blasu ar y cyd. Maen nhw hyd yn oed yn dod at ei gilydd i ddatblygu syniadau newydd – fel hufen iâ Cacen Nadolig Anna ar y cyd â gwneuthurwr gwirodlyn ffrwythau Schlizzy.

Mae eu hathroniaeth yn syml. Trwy brynu bwyd a diod lleol rydym yn cefnogi ein ffermwyr, gostwng niferoedd milltiroedd bwyd sy'n niweidiol i'r amgylchedd ac yn aml mae'n blasu'n well ac yn fwy ffres.

Arloeswyr yn y maes hwn yw Ystâd Rhug yr Arglwydd Newborough ger Corwen, sef fferm organig 8,000 acer sydd â siop fferm, bwyd i fynd, caffi a chyfleuster gyrru-drwodd. "Y bwriad yn ei hanfod yw adeiladu busnes sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol," meddai'r Arglwydd Newborough.

Felly mae Rhug yn arddangos nid yn unig ei gig ei hun, sydd wedi cael ei gyflenwi i'w Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, ond cynnyrch rhai o'r cynhyrchwyr lleol gorau hefyd. Mae'n lle gwych i ddechrau ar eich siwrnai fwyd yn Sir Ddinbych.

@TasteDeeValley

@ClwydianRangeFoodandDrink

Pethau i'w gwneud yn yr hydref

Gwisgwch eich gwisg ffansi ddychrynllyd ac ewch ar helfa ysbrydion neu i barti gwrachod ar Noson Calan Gaeaf.

Mae'n ŵyl fwyd bob dydd yn Sir Ddinbych. Ond yn yr hydref mae digwyddiadau swyddogol yn cael eu cynnal fel Gŵyl Fwyd Llangollen a Gŵyl Eirin Dinbych.

Gwisgwch yn gynnes, bwytewch afal taffi a gwyliwch yr awyr yn goleuo. Mae arddangosfeydd tân gwyllt yn cael eu cynnal ledled Sir Ddinbych ar Noson Tân Gwyllt.

Ewch i fforio. Mae ein caeau a'n perthi yn llawn bwyd os ydych, fel arbenigwyr Original Outdoors, yn gwybod lle i chwilio.

Bydd ein coed yn eu hanterth hydrefol. Ewch am dro ar hyd tirweddau hudolus lliw brongoch ac aur ym Mharc Gwledig Loggerheads a'i debyg.

Dysgwch sut i blygu perthi neu adeiladu waliau cerrig sych fel gwirfoddolwr gydag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Tynnwch eich esgidiau cerdded ac ymlaciwch o flaen tanllwyth o dân yn un o'n tafarndai gwledig clyd.

Mae Cymru yn dod yn lleoliad mwyfwy poblogaidd ymysg syllwyr sêr. Wrth i 98% o boblogaeth y DU fyw o dan awyr sydd wedi'i llygru gan olau, nid oes syndod bod ymwelwyr yn cael eu denu at ein Hawyr Dywyll enwog.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw un o'r lleoedd prin yn y DU lle gallwch weld y Llwybr Llaethog gyda'ch llygaid eich hun. Diolch i'r tîm AHNE, disgwylir i'r awyr fynd hyd yn oed yn dywyllach a'r sêr hyd yn oed yn ddisgleiriach.

Fel rhan o Bartneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru, neu'r Prosiect Nos, rydym yn gweithio i gadw ein golygfa ryfeddol o'r bydysawd yn glir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nid sêr disgleiriach yw'r unig fantais. Mae llygredd golau yn niweidio iechyd pobl ac mae'n cael effaith andwyol ar ein bioamrywiaeth gan fod dros 60% o'n bywyd gwyllt yn dibynnu ar dywyllwch i oroesi. Dyna pam mae ein gwaith yn hanfodol i bawb sy'n byw yn y AHNE – boed yn fodau dynol neu ddim.

Bellach rydym ar genhadaeth i ennill statws swyddogol gan y Gymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll. Rydym yn addysgu pobl ynglŷn â sut i leihau llygredd golau ac yn cynnal amryw o ddigwyddiadau cyffrous; o syllu ar y sêr a sgyrsiau telesgop yn ein harsyllfa symudol, i deithiau cerdded i weld ystlumod, tylluanod a chreaduriaid eraill y nos.

Yr adeg gorau i wylio ein hawyr yw misoedd y gaeaf – o fis Hydref i fis Mawrth mae "Tymor Awyr Dywyll" yn ei anterth. Mae mwy o oriau tywyll yn y dydd ac felly mwy o siawns i weld y Llwybr Llaethog, cytserau gaeafol fel Orion a hyd yn oed seren wib neu ddwy.

Ble ydych chi'n dechrau? Mae gennym bedwar Safle Darganfod Awyr Dywyll sydd ar gael dros nos ac sy'n ddiogel ac yn hygyrch. Mae tri ohonynt ar Fryniau Clwyd a'r pedwerydd ar dirwedd eiconig Dyffryn Dyfrdwy. Camwch allan o'r car a syllwch i fyny at y rhyfeddodau.

www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk

Y SIOE ORAU YN Y BYD

Yn ôl y Swyddog Awyr Dywyll Dani Robertson, gall lleihau llygredd golau wneud i ryfeddodau'r bydysawd ymddangos yn llawer mwy clir.

Awyr dywyll dros Fynydd Hiraethog

Cyngor da i syllwyr sêr di-ofn

Adventure Smart. www.adventuresmart.uk

Paratowch ar gyfer y tywydd – gwisgwch ddillad cynnes ac esgidiau cryfion, llawer o haenau, hetiau, sgarffiau a menig. Gall y tymheredd ostwng yn gyflym yn y nos, felly byddwch yn barod.

Cynlluniwch ymlaen llaw. Ewch i'r lleoliad yn ystod y dydd. Byddwch yn gwybod yn well ble i fynd yn y tywyllwch ar ôl bod yno yng ngolau dydd a byddwch yn ymwybodol o beryglon nad oes modd eu gweld yn y nos.

Dysgwch gan yr arbenigwyr. Ymunwch ag un o'n digwyddiadau neu cysylltwch â'r Gymdeithas Seryddol leol.

Cyfathrebwch. Rhowch wybod i rywun i ble rydych yn mynd ac erbyn pryd yr ydych yn bwriadu bod adref.

Dysgwch gan yr arbenigwyr. Ymunwch ag un o'n digwyddiadau neu cysylltwch â'r Gymdeithas Seryddol leol. www.northwalesastro.co.uk

Ni ddylai teithwyr frysio ar hyd “Ffordd y Gogledd” wrth iddyn nhw olrhain y llwybr masnachu hynafol ar hyd yr arfordir i Ynys Môn. Y syniad yw ymlwybro yn igam-ogam a darganfod y mannau anghysbell.

Dyna un o’r rhesymau pam mae Dyffryn Clwyd bellach yn gyrchfan ymwelwyr yn ei rhinwedd ei hun. Mae’n hawdd cyrraedd y dyffryn o brif wythïen yr A55, mae ei dolydd ffrwythlon a’i threfi marchnad prysur yn ddewis atyniadol yn lle’r potiau mêl twristiaid yng ngorllewin y wlad.

Mae golygfeydd hynod i’w gweld o’r bryniau cyfagos wrth i’r Dyffryn ymestyn o Ruddlan ger yr arfordir, trwy ddinas hynafol Llanelwy i Ddinbych a Rhuthun cyn cyrraedd tarddiad yr Afon Clwyd yng Nghlocaenog.

Chwiliwch am yr arwyddion twristiaeth brown sy’n dangos y ffordd i dri o’r atyniadau treftadaeth mwyaf rhyfeddol yng ngogledd Cymru.

Roedd **Castell Rhuddlan** (www.cadw.llyw.cymru) yn rhan o “gylch haearn” o gadarnleoedd a adeiladwyd gan Edward I yn ei ymgyrch ddidrugaredd yn erbyn y Cymry. Nid oedd afon droellog Clwyd yn y man cywir felly bu raid i Edward ddargyfeirio’r afon â llaw. Saith canrif yn ddiweddarach, wrth edrych ar Gastell Rhuddlan, gellir dweud ei bod wedi bod yn werth symud afon er mwyn ei adeiladu.

Croeswch y bont godi i mewn i’r porthdy twr triphlyg yng Nghastell Dinbych (www.cadw.llyw.cymru) ac fe glywch sŵn y porthcwlis yn codi a thwrw gorymdaith y milwyr. Diolch i synwyryddion a rhyfeddodau technoleg fodern – cawn ein hatgoffa yn fyw o swyddogaeth hanfodol y castell yn y rhyfeloedd a luniodd ein gwlad.

Yn 182 troedfedd o hyd a 68 troedfedd o led, Eglwys Gadeiriol Llanelwy (www.stasaphcathedral.wales) yw’r eglwys gadeiriol hynafol leiaf ym Mhrydain. Ond chwaraeodd ran fawr yn niwylliant Cymru gan mai dyma gartref y Beibl Cymraeg cyntaf erioed. Mae copi gwreiddiol o 1588 yn dal i gael ei arddangos yn yr adeilad sy’n aros yr un mor “urddasol ac ysblennydd” ag y’i disgrifiwyd gan Dr Johnson.

DILYN YR AFON

Castell Rhuddlan

Castell Dinbych

Eglwys Gadeiriol Llanelwy

Y tu mewn i’r Eglwys Gadeiriol

Pethau i'w gwneud yn y gaeaf

Dros gyfnod y Nadolig ewch i weld ein marchnadoedd bwyd Nadoligaidd, gorymdeithiau llusernau, plant yn canu carolau – a'r siopau di-ri yn ein trefi marchnad llawn bwrlwm.

Ewch am wyliau bach gaeafol i rywle ychydig yn wahanol: eco-lety, pabell gloch neu wagen sipsi gyda thwbyn poeth o dan y sêr er mwyn cadw'n gynnes.

Ac ymlaciwch... gwnewch adduned blwyddyn newydd i ofalu amdanoch eich hun trwy fynd am ddiwrnod i sba, ar wyliau ioga neu gwrs ymwybyddiaeth ofalgar.

Edrychwch i fyny i'r awyr a gwyliwch ryfeddodau'r bydysawd. Y gaeaf yw'r adeg gorau i archwilio ein hawyr dywyll enwog.

Gwnewch rywbeth rhamantus. Yng Nghymru rydym yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen, nawddsant y cariadon, ar 25 Ionawr – tair wythnos cyn Dydd Sant Ffolant.

Ewch â'ch ci am dro ar hyd y traeth. Yn y gaeaf mae croeso i gŵn ar bob traeth rhwng y Rhyl a Phrestatyn.

Mae'n dymor pantomeimiau (o, ydy mae hi). Mae Theatr Pafiliwn y Rhyl yn cynnal sioeau llawn hwyl i'r teulu cyfan.

SIR DDINBYCH



DENBIGHSHIRE